



"Casglwyr Cnau" yn y parc, o neiniau a theidiau i blant bach. Wel! Dyma wyl yr hydref orau y gallaf ei chofio erioed. Canghennau'r coed cyll yn orlawn â chlystrau o gnau. Mae'r hen chwedl yn rhagweld gaeaf caled i ddod. Mewn gwirionedd, mae'r tymor tyfu wedi bod yn garedig iawn i bob math o ffrwythau. Mae natur wedi dod ynghyd i gynhyrchu cynhaeaf toreithiog; blwyddyn gnau



Wiwer lwyd

© Neville Davies @ecology-cymru

(mast year) gyda digonedd o gnau ffawydd (beech nuts) a mes, ynghyd â chnau cyll (hazelnuts), egroes (rose hips) a chriafol y moch (haws). Yn glyfar, mae hyn yn arwain at lwyth o fwyd i'n creaduriaid ond hefyd nifer fawr o goed ifanc newydd. Yn anffodus, erbyn i mi fynd ati i gasglu fy nghyfran i o'r cnau, dim ond pentyrrau o hanner blisg gwag oedd ar ôl ar y llawr.

Wrth gwrs, y wiwer lwyd oedd y cyntaf i'r felin. I lawer ohonom, mae'r wiwer ymhlith y bywyd gwyllt a welir amlaf. Yn ystod yr hydref, gallwch ddod o hyd iddynt yn chwilota am ffrwythau. Un priodoledd sydd ganddynt yw cuddio bwyd sbâr o dan y ddaear, nid mewn un lle penodol, ond wedi'i wasgaru ar hyd eu hardal. Maen nhw'n ailddarganfod y bwyd trwy'i aroglu yn ystod y gaeaf pan fydd prinder. Nid yw'r gwiwerod yn darganfod pob un o'r storfeydd, ond mae hyn yn helpu gwasgaru coed.

Yn ddiweddarach yn y tymor, cadwch lygad allan am wiwerod yn perfformio symudiadau chwim wrth rasio trwy'r coed noeth. Fersiwn eithafol o 'kiss chase' yw hwn, gyda'r gwryw ar drywydd gweithredol. Yn y modd hwn, mae'r fenyw yn gwahaniaethu rhwng yr addas a'r anaddas. Y gwryw ar flaen y gad yw'r un sydd yn fwy tebygol o fod yn ffit. Am un peth, er mwyn cynnal yr un cyflymder â hi ond, hefyd, er mwyn gwthio'r eraill yn eu hôl.

O ystyried faint o gnau sydd yr hydref hwn, disgwylir rasys ymlid egniol y gaeaf hwn. Wnaethoch chi gasglu'ch cnau, afalau neu fwyar duon eleni? Rwy'n argymhell gwin y ddraenen wen.

Cyfarchion y Tymor

*Kerry*

Ceidwad Cefn Gwlad